OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1954 (Cy.187)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *2 Awst 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *3 Awst 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Medi 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 434(1), (3) a (4), 551(1) a 569 o Ddeddf Addysg 1996(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

(**1**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 434, 551 a 569, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32). Diwygiwyd adran 434 gan baragraff 111(a) a (b) o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31). Diwygiwyd adran 551 gan baragraff 166(a) a (b) o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.